

Sefydliadau sy'n rhoi cymorth a/neu arian i fentrau cymdeithasol

Big Issue Invest

Big Issue Invest yw cangen buddsoddiadau cymdeithasol The Big Issue. Mae'n cynorthwyo mentrau cymdeithasol ac elusennau drwy'r DU drwy roi benthyciadau iddynt a drwy fuddsoddi ynddynt

www.bigissueinvest.com

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Corff o ymarferwyr annibynnol sy'n hybu gwaith rhwydwaith o ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru, sy'n prysur ehangu, yw Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru.

Cyrrff sy'n eiddo i'r gymuned, ac sy'n cael ei rheoli ganddi, yw ymddiriedolaethau datblygu, fel mentrau cymunedau neu gymdeithasol.

www.dtawales.org.uk

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

Corff ymbarél ar gyfer y trydydd sector, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, yw Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint. Mae dros 1,000 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar ei gronfa ddata ac mae'n gweithredu fel canolfan gyswllt ar gyfer amrywiaeth eang o gyrff lleol. Mae'r Cyngor yn darparu'r gwasanaethau a ganlyn:

- Cyngor a chymorth gyda materion llywodraethu gan gynnwys dogfennau llywodraethu
- Gwybodaeth a chyngor am ffynonellau ariannu a chyllid
- Recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr
- Darparu a threfnu hyfforddiant www.flvc.org.uk/learningzone
- Y gyflogres a chymorth gyda'r gyllideb a chyllid
- Cymorth i recriwtio a materion eraill yn ymwneud â staffio
- Hyrwyddo mentrau cymdeithasol drwy gyfrwng ei wefan, cylchlythyrau a'r e-bost

Mae'r Cyngor hefyd yn rhedeg nifer o brosiectau menter gymdeithasol

<http://www.flvc.org.uk/>

www.flvc.org.uk

Funding Central

Mae'n rhoi cyngor ynghylch cyllid, benthyciadau a chytundebau i gyrff gwirfoddol neu gymunedol neu i fentrau cymdeithasol

www.fundingcentral.org.uk

Local Partnerships

Menter ar y cyd rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol a Thrysorlys Er Mawrhydi yw Local Partnerships ac maent yn cynnig arbenigedd a gwybodaeth fasnachol i gyrff cyhoeddus lleol, gan gynnwys awdurdodau lleol, asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yr heddlu ac awdurdodau tân.

www.localpartnerships.org.uk

Mutual Ventures

Maent yn gweithio gydag awdurdodau lleol, cyrff y GIG a chyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill, i'w helpu i baratoi strategaethau a'u rhoi ar waith, gan gynnwys dichonolrwydd a datblygiad mentrau cymdeithasol a mentrau ar y cyd a gaiff eu llywio gan staff.

www.mutualventures.co.uk

Social Enterprise UK

Maent yn darparu gwasanaethau ymgynghori i gyrff fel awdurdodau lleol, mentrau cymdeithasol, elusennau sydd am wneud rhagor o waith ym maes menter gymdeithasol a chwmnïau sydd am gynnwys menter gymdeithasol yn eu rhaglenni Cyfrifoldebau Cymdeithasol Corfforaethol.

<http://www.socialenterprise.org.uk>

Cwmnïau Cymdeithasol Cymru

Hon yw'r Asiantaeth Cymorth Genedlaethol ar gyfer Datblygu Cwmnïau Cymdeithasol. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Social Firms UK. Mae wedi ymrwymo i greu cyfleoedd gwaith i bobl ddifreintiedig drwy ddatblygu a chynorthwyo cwmnïau cymdeithasol yng Nghymru.

www.socialfirmswales.co.uk

Start Up

Adnawdd i ddechrau busnes

www.startups.co.uk

Ymddiriedolaeth y Tywysog

Mae Rhaglen Fenter Ymddiriedolaeth y Tywysog yn helpu pobl ifanc ddi-waith 18-30 oed i benderfynu a yw eu syniadau busnes yn ymarferol ac yw hunangyflogaeth yn addas iddyn nhw. Gall y rhaglen gynnig cymorth mentora ac, i rai, cymorth ariannol i

ddechrau busnes neu wasanaeth mentora i'w helpu i gyrraedd targedau o ran gwaith, addysg a hyfforddiant.

www.princes-trust.org.uk

The Social Investment Business – Rheolwr cronfa arbenigol sy'n rheoli dros 1300 o fuddsoddiadau mewn cyrff cymdeithas sifil sy'n amrywio o lai na £5,000 i bron £7 miliwn.

Mae TSIB yn buddsoddi mewn prosiectau dichonol, nad yw banciau'n buddsoddi ynddynt; yn ei gwneud yn haws iddynt ddatblygu'n gynlluniau mwy mentrus; yn eu cryfhau; yn buddsoddi mewn rhagoriaeth; ac yn datblygu'r syniadau mwyaf arloesol. Mae TSIB yn cynnig cyllid, gwybodaeth ac arbenigedd i helpu cyrff cymdeithas sifil i ffynnu - gan wella'u seilwaith, cynyddu eu gallu a'u helpu i wneud ceisiadau llwyddiannus am gontractau gwasanaethau cyhoeddus.

www.sibgroup.org.uk

Canolfan Gydweithredol Cymru

Yn cynorthwyo cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol a chyrff gwirfoddol.

www.walescooperative.org

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Bond Lles Cymru Llywodraeth Cymru

Yn cynnig arian i ailgynllunio neu i greu gwasanaethau cyhoeddus yn y trydydd sector. Math o gyllid nid er elw preifat sy'n ail-fuddsoddi yn lles Cymru.

www.wcva.org.uk

Llywodraeth Cymru

Mae'n ariannu amrywiaeth o gyrff i ddarparu cymorth datblygu arbenigol i fentrau cymdeithasol Cymru.

www.cymru.gov.uk